CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

POLISI DIOGELU DATA F.2.1

Ar waith o: 21.02.2023

Cynnwys

Adran	Pennawd	Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Gofynion Cyfreithiol	3
3.	Cwmpas	4
4.	Cysylltiadau â Pholisïau Eraill	5
5.	Egwyddorion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	5
6.	Cydymffurfio â'r Egwyddorion	6
7.	Hawliau Gwybodaeth	12
8.	Swyddogaethau a Chyfrifoldebau	13

Atodiad I	Diffiniadau	15
Atodiad II	Rheoli'r Ddogfen	17

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gasglu data personol er mwyn darparu ei wasanaethau a chydymffurfio â gofynion Cyfreithiau a Rheoliadau. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am rannu gwybodaeth yn unol â'r gofynion sydd arno ef.

1.2 Ni waeth sut y caiff ei gasglu, ei gofnodi a'i ddefnyddio, rhaid ymdrin â data yn y modd priodol i sicrhau bod deddfwriaeth Diogelu Data yn cael ei bodloni.

1.3 Mae prosesu data personol mewn modd cyfreithlon yn fater hynod o bwysig i'r Cyngor ac yn dangos atebolrwydd a thryloywder clir i'n dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a chwsmeriaid.

1.4 Mae'r Polisi yma'n rhoi trosolwg o drefniadau llywodraethu'r Cyngor o ran rheoli'r data personol y mae'n ei brosesu, ac mae'n berthnasol i bob gweithiwr. Mae'n cynnwys mesurau sefydliadol a chyfrifoldebau unigol sy'n ceisio sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch Diogelu Data ac yn parchu hawliau unigolion.

2. GOFYNION CYFREITHIOL

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU

2.1 Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU yn gyfraith y DU a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2021.

2.2 Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn nodi'r egwyddorion, hawliau a rhwymedigaethau allweddol ar gyfer prosesu data personol yn y DU, ac eithrio asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth (mae hyn wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Diogelu Data).

Deddf Diogelu Data 2018

2.3 Daeth Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) i rym ar 25 Mai 2018. Mae'n diwygio ac yn disodli Deddf Diogelu Data 1998. Cafodd y Ddeddf ei diwygio ar 1 Ionawr 2021 gan reoliadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i adlewyrchu statws y DU y tu allan i'r UE.

2.4 Mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU ac yn eu hategu. Mae hefyd yn nodi rheolau diogelu data ar wahân ar gyfer awdurdodau sy'n gorfodi'r gyfraith, yn ymestyn rheoliadau diogelu data i feysydd eraill fel diogelwch cenedlaethol ac amddiffyn, ac yn nodi swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Camau Gorfodi

2.5 Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r Ddeddf Diogelu Data yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Gwybodaeth / Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

2.6 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnig cyngor ac arweiniad, yn hyrwyddo arfer da, yn monitro adroddiadau o dorri amodau, yn cynnal archwiliadau ac ymweliadau cynghori, yn ystyried cwynion, yn monitro cydymffurfiaeth ac yn cymryd camau gorfodi lle bo'n briodol.

2.7 Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nifer o bwerau i gymryd camau yn erbyn sefydliadau sy'n torri'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol neu'r Ddeddf Diogelu Data. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno:

- Hysbysiad asesu
- Rhybudd
- Hysbysiad Gorfodi
- Hysbysiad Cosb

2.8 Ar gyfer achosion difrifol o dorri'r egwyddorion diogelu data, mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y gallu i roi dirwyon o hyd at £17.5 miliwn neu 4% o drosiant blynyddol byd-eang y sefydliad, pa un bynnag sydd uchaf.

3. CWMPAS

3.1 Mae'r Polisi yma'n berthnasol i bob gweithiwr, contractwr, ymgynghorydd, partner, cyflenwr, asiant neu unrhyw un sydd â mynediad at ddata personol a ddelir gan neu ar ran y Cyngor.

3.2 Mae'r Polisi hefyd yn berthnasol i ddata personol a brosesir gan Aelodau Etholedig wrth gynrychioli'r Cyngor, er enghraifft fel aelod o bwyllgor.

3.3 Mae'r Polisi'n berthnasol i'r holl brosesu data personol y mae'r Cyngor yn Rheolydd Data ar ei gyfer. Yn eu plith, mae:

- Data personol a brosesir gan y Cyngor.
- Data personol a reolir gan y Cyngor ond a brosesir gan drydydd parti ar ran y Cyngor (er enghraifft contractwyr y sector preifat).
- Data personol a brosesir ar y cyd gan y Cyngor a'i bartneriaid (rheolwyr data ar y cyd).

3.4 Gall gwrthrychau data gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cwsmeriaid.
- Cleientiaid
- Defnyddwyr Gwasanaeth
- Dinasyddion
- Gweithwyr presennol, cyn weithwyr a darpar weithwyr
- Eraill y mae'r Cyngor yn cyfathrebu â nhw

3.5 Mae'r polisi yn berthnasol i'r holl ddata personol waeth beth fo'r cyfryngau lle mae'n cael ei gadw gan gynnwys data electronig, CCTV, recordiadau fideo a sain a data a gedwir mewn fformat 'corfforol' (e.e. cofnodion papur).

4. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU ERAILL

4.1 Mae cyfres o weithdrefnau ategol, dogfennau canllaw, pecynnau cymorth a fframweithiau yn sail i'r Polisi yma. Mae'r dogfennau yma'n ffurfio Fframwaith Rheoli Gwybodaeth y Cyngor ac yn helpu i ddangos ymrwymiad at atebolrwydd a thryloywder.

4.2 Mae modd i'r polisi yma hefyd gael ei gefnogi ymhellach gan weithdrefnau adrannol, canllawiau a phrotocolau rhannu gwybodaeth ar gyfer meysydd gwaith penodol.

5.0 EGWYDDORION RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)

5.1 Mae Erthygl 5 o'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn nodi saith egwyddor allweddol sydd wrth wraidd trefn diogelu data cyffredinol y DU.

5.2 Mae Erthygl 5(1) yn mynnu bod data personol yn:

(a) cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas ag unigolion ('cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder');

(b) yn cael ei gasglu at ddibenion penodedig, eglur a chyfreithlon a heb ei brosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny; ni fydd prosesu pellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn cael ei ystyried yn anghydnaws â'r dibenion cychwynnol ('cyfyngiad pwrpas');

(c) - bydd data personol yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y bydd e'n cael ei brosesu

(d) yn gywir a, lle bo angen, yn cael ei gadw'n gyfredol; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol sy'n anghywir, o ystyried y dibenion y'u prosesir ar eu cyfer, yn cael ei ddileu neu'i gywiro yn ddi-oed ('cywirdeb');

(d) yn cael ei gadw ar ffurf nad yw'n caniatáu adnabod gwrthrychau'r data am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y mae'r data personol yn cael eu prosesu ar eu cyfer; gellir storio data personol am gyfnodau hwy i'r graddau y bydd y data personol yn cael ei brosesu'n unig at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn amodol ar weithredu'r mesurau technegol a threfniadol priodol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol er mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion ('cyfyngiad storio');

(f) yn cael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol, gan gynnwys amddiffyniad rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol priodol ('uniondeb a chyfrinachedd').

5.3 Mae Erthygl 5(2) yn mynnu bod:

> Y rheolydd yn gyfrifol am baragraff 1 (‘atebolrwydd’) ac yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio ag ef.

6.0 CYDYMFFURFIO â'r EGWYDDORION

6.1 Mae'r canlynol yn nodi sut y bydd y Cyngor yn anelu at gydymffurfio â phob un o'r egwyddorion.

6.2 Erthygl 5(1)(a) – Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywder

Cyfreithlondeb

6.3 Bydd y Cyngor yn nodi sail neu seiliau cyfreithlon priodol ar gyfer prosesu data personol a data categori arbennig.

6.4 Os caiff data o ran troseddau ei brosesu, byddwn yn pennu’r amod ar gyfer prosesu’r data, neu’n nodi ein hawdurdod swyddogol ar gyfer prosesu’r data.

6.5 Bydd y sail (neu seiliau)/amod cyfreithlon ar gyfer prosesu'r data yn cael ei ddogfennu yng Nghofrestr Diogelu Data'r Cyngor a'i adlewyrchu yn hysbysiadau preifatrwydd y gwasanaeth a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

6.6 Lle bynnag y bydd caniatâd yn sail gyfreithlon ar gyfer prosesu’r data personol, bydd y Cyngor yn ceisio:

- Gwneud y cais am ganiatâd yn amlwg ac yn ei osod ar wahân i delerau ac amodau eraill.
- Peidio â defnyddio blychau sydd wedi'u ticio ymlaen llaw nac unrhyw fathau eraill o gael caniatâd awtomatig.
- Gofyn i unigolion optio i mewn.
- Darparu cyfarwyddiadau clir ynghylch yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl a sut mae modd gwneud hyn.
- Sicrhau bod modd i chi wrthod rhoi caniatâd heb anfantais.

6.7 Tryloywder

6.8 Bydd y Cyngor yn glir, yn agored ac yn onest ag unigolion ynghylch prosesu eu data personol.

6.9 Pan fydd data personol yn cael ei gasglu byddwn yn esbonio/darparu i unigolion:

- Enw a manylion cyswllt y Cyngor
- Enw a manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data
- Diben prosesu'r data
- Y sail (neu seiliau) cyfreithlon ar gyfer prosesu’r data
- Y buddiannau cyfreithlon ar gyfer y prosesu (os yw'n berthnasol)

- Y categorïau o ddata personol a broseswyd (os na cheir y data personol gan yr unigolyn y mae'n ymwneud ag ef)
- Ffynhonnell y data personol (os na cheir y data gan yr unigolyn y mae'n ymwneud ag ef)
- Derbynwyr neu gategorïau o dderbynwyr y data personol
- Cyfnodau cadw ar gyfer y data
- Yr hawliau sydd ar gael i unigolion mewn perthynas â'r prosesu
- Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl (os yw'n berthnasol)
- Yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Manylion bodolaeth systemau gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio (os yw'n berthnasol)

6.10 Byddwn ni'n gwneud hyn mewn modd cryno, tryloyw, dealladwy, a hygyrch, gan ddefnyddio iaith glir a phlaen.

6.11 Bydd y Cyngor yn teilwra gwybodaeth am breifatrwydd ar gyfer plant a grwpiau eraill o unigolion fel y bo'n briodol.

6.12 Byddwn ni'n cyhoeddi'r wybodaeth yma ar ffurf 'Hysbysiadau Preifatrwydd' a bydd y rhain ar gael ar wefan y Cyngor, a lle bo'n briodol, mewn fformatau printiedig.

6.13 Bydd Hysbysiadau Preifatrwydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phe bai newidiadau sylweddol i brosesu data personol yn digwydd, bydd unigolion yn cael eu hysbysu fel y bo'n briodol.

6.14 Pan fyddwn ni'n prosesu data personol i hysbysu pobl am wasanaethau, gweithgareddau ac achlysuron y Cyngor ac ati, byddwn ni'n darparu ym mhob cyfathrebiad ffordd syml o optio allan o gyfathrebiadau pellach.

6.15 Erthygl 5(1(b) – Cyfyngiad Diben

6.16 Er mwyn cydymffurfio â'r egwyddor yma bydd y Cyngor yn:

- Nodi'n glir ein pwrpas neu ddibenion ar gyfer prosesu'r data
- Dogfennu'r dibenion hynny yn ein Cofrestr Diogelu Data.
- Cynnwys manylion ein dibenion yn ein gwybodaeth preifatrwydd i unigolion.
- Adolygu ein prosesu yn rheolaidd a, lle bo angen, diweddaru ein dogfennaeth a'n gwybodaeth breifatrwydd i unigolion.
- Os ydyn ni'n bwriadu defnyddio data personol at ddiben newydd heblaw rhwymedigaeth gyfreithiol neu swyddogaeth a nodir yn y gyfraith, byddwn ni'n gwirio bod hyn yn gydnaws â'n diben gwreiddiol neu'n cael caniatâd penodol ar gyfer y diben newydd.

6.17 Erthygl 5(1)(c) – Lleihau Data

6.18 Er mwyn cydymffurfio â'r egwyddor yma, bydd y Cyngor:

- Dim ond yn casglu data personol i'r graddau sy'n angenrheidiol i gyflawni ein swyddogaethau a darparu ein gwasanaethau.
- Yn casglu digon o ddata personol i gyflawni'r dibenion hynny'n briodol.
- Yn adolygu'r data sydd gyda ni o bryd i'w gilydd, gan ddileu unrhyw beth nad oes ei angen arnon ni.

6.19 Erthygl 5(1)(d) – Cywirdeb

6.20 Er mwyn cydymffurfio â'r egwyddor yma, bydd y Cyngor:

- Yn sicrhau cywirdeb unrhyw ddata personol rydyn ni'n ei greu, cyn belled ag sy'n ymarferol.
- Yn rhoi prosesau priodol ar waith i wirio cywirdeb y data rydyn ni'n ei gasglu.
- Yn rhoi prosesau priodol ar waith i nodi pryd y mae angen inni ddiweddaru'r data er mwyn cyflawni ein diben mewn modd priodol.
- Sicrhau bod y data'n cael ei gadw'n gyfredol (lle bo angen), cyn belled ag sy'n ymarferol.
- Rhannu data personol, megis manylion cyswllt, o fewn y Cyngor lle mae angen cadw cofnodion yn gywir ac yn gyfredol, ac er mwyn darparu gwell gwasanaeth i unigolion.
- Os daw hi i'r amlwg bod data personol yn anghywir, bydd hyn yn cael ei unioni cyn gynted â phosibl.
- Os oes angen i ni gadw cofnod o gamgymeriad, rydyn ni'n nodi'n glir mai camgymeriad yw hi.
- Bydd ein cofnodion yn nodi'n unrhyw faterion o farn yn glir, a lle bo'n briodol, bydd yn nodi barn pwy yw hi ac unrhyw newidiadau perthnasol i'r ffeithiau sylfaenol.
- Cydymffurfio â hawl yr unigolyn i gywiro data ac ystyried unrhyw heriau i gywirdeb y data personol yn ofalus.
- Rydyn ni'n cadw nodyn o unrhyw heriau i gywirdeb y data personol yn fater o arfer da.

6.21 Erthygl 5(1)(e) – Cyfyngu ar Storio (Cadw)

6.22 Er mwyn cydymffurfio â'r egwyddor yma, bydd y Cyngor:

- Ddim yn cadw data personol am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r diben y'i prosesir ar ei gyfer.
- Yn meddu ar bolisi/amserlen Cadw a Gwaredu sy'n nodi cyfnodau cadw safonol ar gyfer cofnodion a data.
- Yn cymhwyso polisi/amserlen Cadw a Gwaredu'r Cyngor.
- Yn cael gwared ar gofnodion sy'n cynnwys data personol neu gyfrinachol mewn modd diogel h.y. rhwygo, biniau gwastraff cyfrinachol a dulliau dileu electronig diogel.

6.23 Erthygl 5(1(f) – Cywirdeb a Chyfrinachedd (Diogelwch)

6.24 Er mwyn cydymffurfio â'r egwyddor yma, bydd y Cyngor yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r holl ddata personol sydd ganddo a lleihau'r risg o ran colled, mynediad anghywir neu ddefnydd amhriodol. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn:

- Rheoli mynediad at ddata personol fel y gall staff a phobl eraill sy'n gweithio ar fusnes y Cyngor weld y cyfryw ddata personol ag sy'n angenrheidiol, a dim mwy na hynny, er mwyn iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i holl staff y Cyngor, ac eraill sydd â mynediad at ddata personol yn ystod eu gwaith, gwblhau hyfforddiant sylfaenol ar ddiogelu data, wedi'i ategu fel y bo'n briodol gan weithdrefnau a chanllawiau sy'n berthnasol i'w swyddogaethau penodol.
- Pennu a monitro cydymffurfiaeth â safonau diogelwch ar gyfer rheoli data personol yn rhan o fframwaith ehangach y Cyngor o bolisïau a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth.
- Darparu offer priodol i staff, contractwyr ac eraill i ddefnyddio a chyfathrebu data personol yn ddiogel, ac wrth weithio i ffwrdd o amgylchedd y brif swyddfa pan fo'u dyletswyddau yn gofyn am hynny, er enghraifft trwy ddarparu rhwydwaith preifat diogel neu amgryptio.
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob cyflenwr, contractwr, asiant a chorff ac unigolyn allanol arall sy'n prosesu data personol ar ran y Cyngor yn llunio cytundeb Prosesydd Data ac yn cydymffurfio â rheolaethau diogelwch archwiliadwy i ddiogelu'r data.
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na chaiff data personol ei drosglwyddo y tu allan i'r DU heb fesurau diogelu priodol.

- Datblygu a chynnal cytundebau rhannu gwybodaeth (yn unol â fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, Llywodraeth Cymru) gyda sefydliadau partner a chyrff allanol eraill y bydd angen i ni rannu data personol â nhw er mwyn cyflawni gwasanaethau a rennir neu brosiectau ar y cyd i sicrhau llywodraethu, atebolrwydd a rheolaeth briodol dros y defnydd o ddata o'r fath.

- Gwneud trefniadau priodol ac amserol i sicrhau bod data personol yn cael ei ddinistrio'n gyfrinachol ym mhob cyfrwng a fformat pan nad oes ei angen mwyach ar gyfer busnes y Cyngor.

6.25 Erthygl 5(2) – Atebolrwydd

Cofnod O Weithgarwch Prosesu

6.26 Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau penodol ynghylch yr angen i sefydliadau gadw dogfennau o'u gweithgareddau prosesu. Rhaid i sefydliadau gadw cofnodion ar sawl peth megis dibenion prosesu, rhannu data a chadw. Efallai bydd gofyn i sefydliadau rannu'r cofnodion yma gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gais.

6.27 Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb allweddol yma, mae gan y Cyngor Gofrestr Diogelu Data (DPR). Mae'r Cofrestrau yn dogfennu'r canlynol ar gyfer pob gweithgaredd prosesu:

- pwrpas y prosesu
- sail gyfreithiol ar gyfer prosesu a chefnogi deddfwriaeth
- y mathau o ddata personol sy'n cael eu prosesu
- categorïau o wrthrychau data y mae'r data'n berthnasol iddynt
- gyda phwy y rhennir y data (partneriaid mewnol ac allanol)
- gofynion o ran cadw;
- gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer hysbysiadau preifatrwydd
- cofnodion caniatâd
- trefniadau rheolydd-prosesydd
- lleoliad data personol

6.28 Mae pob cofnod ar y gofrestr yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

6.29 Preifatrwydd trwy Ddyluniad / Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA)

6.30 Bydd y Cyngor yn arfer egwyddorion 'cynllunio preifatrwydd' wrth ddatblygu a rheoli systemau a phrosesau gwybodaeth sy'n cynnwys data personol. Yn benodol, bydd y Cyngor yn:

- Cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data ar gyfer prosesau sy'n debygol o arwain at risg uchel i unigolion.

- Mabwysiadu rhestr wirio sgrinio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i benderfynu pryd mae angen Asesiad Effaith Diogelu Data.

- Datblygu polisi a gweithdrefn sy'n dogfennu'r broses o ran cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data.

6.31 Torri Amodau Data Personol

6.32 Mae'r Rheoliadau yn cyflwyno dyletswydd ar bob sefydliad i roi gwybod am fathau penodol o achosion o fynediad diawdurdod i ddata personol i'r awdurdod goruchwylio perthnasol (y Comisiynydd Gwybodaeth). Rhaid gwneud hyn cyn pen 72 awr ar ôl cael gwybod am yr achos o dorri amodau, lle bo'n ymarferol.

6.33 Os yw'r achos o dorri'r ddeddf yn debygol iawn o arwain at risg uchel ac at effaith andwyol ar hawliau a rhyddid unigolion, rhaid i'r sefydliad hefyd roi gwybod i'r unigolion hynny heb oedi gormodol.

6.34 Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad yma, mae gan y Cyngor weithdrefnau cadarn ar gyfer canfod, adrodd ac ymchwilio i doriadau sydd â'r nod o sicrhau:

- Bod digwyddiadau torri amodau data a gwybodaeth yn cael eu canfod, eu hadrodd, eu categoreiddio a'u monitro yn gyson.
- Bod digwyddiadau yn cael eu hasesu a bod ymateb iddyn nhw yn briodol.
- Bod camau yn cael eu cymryd i leihau effaith datgelu.
- Bod gwelliannau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i atal achos rhag digwydd eto.
- Bod achosion difrifol o dorri amodau data personol yn cael eu hadrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn yr amserlen ofynnol.
- Y rhoddir gwybod i wrthrych y data os yw'r achos o dorri amodau eu data personol yn debygol o arwain at 'risg uchel'.
- Caiff gwersi a ddysgwyd eu lledaenu a chaiff camau gweithredu i helpu i atal digwyddiadau yn y dyfodol eu cytuno a'u monitro.

6.35 Cwynion o ran Diogelu Data

6.36 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymdrin yn effeithiol ag unrhyw gwynion neu bryderon a allai fod gan unigolion ynghylch y ffordd y mae'r Cyngor yn prosesu gwybodaeth bersonol.

6.37 Bydd unrhyw gwynion am y modd y mae'r Cyngor yn prosesu data personol a hawliau o dan y Rheoliad yn cael eu trin yn unol â'r polisi hwn a Pholisi Cwynion y Cyngor.

6.38 Gellir cyfeirio cwynion diogelu data yn uniongyrchol at Garfan Rheoli Gwybodaeth y Cyngor (e-bost/cyfeiriad isod) neu gellir eu cyflwyno trwy unrhyw un o'r dulliau a amlygir ym Mholisi Cwynion a Phryderon y Cyngor:

Carfan Rheoli Gwybodaeth CBSRhCT, Canolfan Hamdden Rhondda Fach, Tylorstown, CF43 3HR
E-bost: rheoli.gwybodaeth@rctcbc.gov.uk

6.39 Dyw'r Rheoliadau ddim yn nodi trefn gwynion benodol ar gyfer materion diogelu data. Fodd bynnag, mae gan unigolion hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth gynnal asesiad o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau mewn perthynas ag amgylchiadau penodol.

Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
ico.org.uk
Ffôn: 03031231113 neu 01625545745

6.40 Bydd y Cyngor yn ymateb yn brydlon ac yn llawn i unrhyw gais gan y Comisiynydd Gwybodaeth am wybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth o ran diogelu data.

7.0 HAWLIAU GWYBODAETH

7.1 Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn darparu'r hawliau canlynol i unigolion mewn perthynas â'u data personol.

i. Hawl i weld gwybodaeth
Mae hyn yn galluogi'r unigolyn i gael mynediad at a derbyn copi o'u data personol a gwybodaeth atodol arall.

ii. Hawl i gywiro gwybodaeth anghywir (cywiro)
Mae hyn yn galluogi'r unigolyn i ofyn i'r Cyngor gael data personol anghywir wedi'i gywiro neu ei gwblhau os yw'n anghywir. Mae cysylltiad agos rhwng yr hawl yma a'r egwyddor o gywirdeb (Erthygl (5)(1)(d)).

iii. Hawl i ddileu gwybodaeth
Mae hyn yn galluogi'r unigolyn i ofyn i'r Cyngor ddileu gwybodaeth bersonol amdano os does dim rheswm digonol dros barhau i'w ddefnyddio. Dydy'r hawl yma ddim yn ddiamod, ac mae hi ond yn berthnasol o dan amgylchiadau penodol.

iv. Hawl i gyfyngu prosesu
Mae hyn yn rhoi'r hawl i'r unigolyn ofyn i'r Cyngor rwystro neu roi'r gorau i ddefnyddio ei ddata personol os yw ei ddefnydd parhaus yn achosi niwed neu drallod sylweddol a direswm. Dydy'r hawl yma ddim yn ddiamod, ac mae hi ond yn berthnasol o dan amgylchiadau penodol.

v. Hawl i gludo gwybodaeth
Mae'r hawl yma'n caniatáu i'r unigolyn ofyn i'r Cyngor am gopi electronig o'r wybodaeth bersonol amdano mewn fformat darllenadwy fel bydd modd i'r unigolyn ei darparu i sefydliad neu ddarparwr gwasanaeth arall. Mae'r hawl i gludo gwybodaeth ond yn berthnasol o dan rai amgylchiadau penodol.

vi. Hawl i wrthod
Mae'r hawl yma'n caniatáu i'r unigolyn wrthwynebu i'r Cyngor brosesu ei ddata personol pan fo'r prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Mae modd i unigolion wrthwynebu hefyd os yw'r prosesu ar gyfer:

- tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd;
- arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd ynoch chi; neu
- eich buddiannau cyfreithlon (neu rai trydydd parti).

Yn yr amgylchiadau yma nid yw'r hawl i wrthwynebu yn ddiamod.

vii. Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomatig
Mae'r hawl yma'n galluogi'r unigolyn (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu'r Cyngor i wneud penderfyniadau sylweddol yn eu cylch lle mae'r penderfyniad wedi'i awtomeiddio'n llwyr ac nad oes unrhyw gyfranogiad gan bobl.

7.2 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod rhwydd hynt gydag unigolion arfer eu hawliau ac mae ganddo weithdrefnau i sicrhau bod staff yn effro i geisiadau o'r fath ac yn gallu ymateb iddyn nhw.

8. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

8.1 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data, rhaid i bawb, o staff rheng flaen i uwch reolwyr, ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran rheoli data personol. Mae hyn yn creu llinellau arweinyddiaeth, atebolrwydd a llywodraethu clir, ynghyd â hyrwyddo diwylliant lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei gwerthfawrogi a'i diogelu.

8.2 Mae swyddogaethau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu penodol wedi'u sefydlu yn unol â deddfwriaeth diogelu data a chanllawiau Trin Data ehangach ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol. Mae'r rolau/grwpiau allweddol fel a ganlyn:

i. Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth

Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol yw Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) dynodedig y Cyngor.

Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn rôl allweddol o fewn y Cyngor sy'n goruchwylio'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i ddiogelu asedau gwybodaeth a sicrhau bod unrhyw risg sy'n gysylltiedig â gwybodaeth yn cael ei reoli'n briodol.

Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn aelod o Uwch Reolwyr y Cyngor a chaiff ei gefnogi gan Swyddog Diogelu Data'r Cyngor.

ii. Swyddog Diogelu Data (Swydd Statudol)

Swyddog Diogelu Data a Gwella'r Cyngor yw'r swyddog dynodedig ar gyfer y Cyngor. Mae'r Swyddog dynodedig yn darparu dehongliad, cyngor a chymorth ar faterion llywodraethu gwybodaeth cymhleth a chydymffurfio â gwybodaeth.

Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn darparu adnoddau digonol i gefnogi'r Swyddog Diogelu Data i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â rhwymedigaethau'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Yn weithredol, mae'r Swyddog Diogelu Data yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau TGCh a Digidol. Fodd bynnag, mae trefniadau ar waith lle mae gan y Swyddog Diogelu Data hefyd linell adrodd uniongyrchol i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth er mwyn sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd sefydliadol.

iii. Bwrdd Rheoli Gwybodaeth

Mae'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth (IM) yn darparu trosolwg lefel uchel o drefniadau Rheoli Gwybodaeth y Cyngor. Mae'n pennu'r cynllun rheoli gwybodaeth hirdymor ar gyfer y Cyngor (fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth TGCh a Digidol), yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac yn rhoi sicrwydd bod risg gwybodaeth yn cael ei hasesu, ei rheoli a'i lliniaru'n briodol.

iv. Carfan Rheoli Gwybodaeth

Mae'r garfan yn cefnogi cyflwyno'r cynllun rheoli gwybodaeth. Mae'n darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth, yn rhoi cyngor ac arweiniad i holl Wasanaethau'r Cyngor ac mae hefyd yn gyfrifol am ymchwilio'n annibynnol i achosion o dorri gweithdrefnau yr adroddir amdanynt.

Mae'r cynrychiolwyr fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelu Data a Gwella
- Dirprwy Swyddog Diogelu Data
- Uwch Swyddog Cydymffurfio
- Swyddog Cydymffurfio

v. Pennaeth Gwasanaeth (Perchnogion Asedau Gwybodaeth)

Mae rôl y Perchennog Asedau Gwybodaeth o dan ofal rhywun a fydd â pherchnogaeth ac atebolrwydd eithaf ar systemau gwybodaeth ac asedau o fewn ei faes gwasanaeth. Fel arfer, ar lefel Pennaeth y Gwasanaeth fydd hynny.

Mae'r swyddogion yma'n gyfrifol am sicrhau bod systemau ac asedau gwybodaeth yn cael eu trin a'u rheoli'n briodol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu'n briodol, a lle mae data personol yn cael ei rannu, bod cyfrinachedd, cywirdeb a mesurau diogelu priodol yn berthnasol.

Mae'r Perchennog Asedau Gwybodaeth yn gyfrifol am sicrhau bod ei staff yn prosesu data personol yn unol ag egwyddorion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

vi. Gweithwyr (Defnyddwyr Gwybodaeth)

Mae bron pob aelod o staff yn y Cyngor yn trin ac yn rheoli data personol fel rhan o'u rôl o ddydd i ddydd ac felly mae ganddynt rôl bwysig mewn rheoli gwybodaeth yn effeithiol drwy gydol ei gylch bywyd h.y. o'r amser y caiff ei gasglu neu ei greu, i'r amser y mae nad oes ei angen mwyach a gwaredwyd.

Cyfrifoldebau Unigol:

- Rhaid i bob gweithiwr gydymffurfio â'r Polisi hwn. Gall methu â chydymffurfio arwain at gamau disgyblu a allai arwain at ddiswyddo.
- Ymgymryd â hyfforddiant diogelu data perthnasol a ddarperir gan y Cyngor i gefnogi cydymffurfiaeth â'r polisi hwn.
- Cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau nad yw unrhyw achosion o dorri amodau data personol yn deillio o'u gweithredoedd.
- Rhoi gwybod am achosion o dorri rheolau diogelwch sy'n cael eu hamau yn brydlon fel bydd modd cymryd camau priodol*i leihau niwed i'r eithaf.*

Atodiad I

DIFFINIADAU

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol	Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU
Deddf Diogelu Data	Deddf Diogelu Data 2018
Data personol	Person naturiol adnabyddadwy yw person y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol drwy gyfeirio at ddynodydd fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein, neu at un neu ragor o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person byw hwnnw.
Categorïau data arbennig	Data sensitif gynt, mae'r categorïau fel a ganlyn: • hil neu darddiad ethnig • barn Wleidyddol. • credoau crefyddol neu athronyddol, • aelodaeth o Undeb Llafur • data genetig, • data biometrig at ddibenion adnabod person byw yn unigol, • data ynghylch iechyd • data ynghylch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn
euogfarnau troseddol	Er nad yw'n cael ei gyfrif fel data categori arbennig o dan y Rheoliadau, mae prosesu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau a throseddau yn cynnwys cyfarwyddiadau penodol o dan Erthygl 10 yn y Rheoliadau ac hefyd Atodlen 1 y Ddeddf.
Gwrthrych y Data	Mae Testun y Data yn unigolyn byw y mae'r data personol yn ymwneud ag ef. O fewn y Cyngor gallai hyn fod yn ddinesydd, yn ddefnyddiwr gwasanaeth, yn gwsmer neu'n weithiwr.
Rheolwr/Rheolydd Data:	Rheolwr – neu Reolydd – Data yw'r person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sydd, ar ei ben/phen ei hun neu ar y cyd ag eraill, yn penderfynu ar ddibenion a dulliau prosesu data personol.
Rheolydd/Rheolwr Data ar y Cyd	Defnyddir y term ar y cyd lle mae dau neu ragor o bobl / sefydliadau yn gweithredu gyda'i gilydd i benderfynu pwrpas a dull unrhyw brosesu data.
Proseswr/Prosesydd data:	Mae Prosesydd Data yn berson naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sy'n prosesu data personol ar ran y rheolwr/rheolydd, ac yn unol â'u cyfarwyddiadau.

Prosesu	Mae'r diffiniad o 'brosesu' yn eang iawn ac yn cwmpasu bron unrhyw gamau sy'n gysylltiedig â data personol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gasglu, cofnodi, storio, diwygio, rhannu, gwylio, datgelu, rhannu a dinistrio'r data.
Y Comisiynydd Gwybodaeth / Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)	Y person (a'r adran) a benodwyd gan y Goron sy'n gyfrifol am weithredu a phlismona Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Deddf Diogelu Data, a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae gan yr unigolyn awdurdod i archwilio ac i erlyn ar ran unrhyw unigolyn arall sy'n credu dydy ei ddata ddim wedi ei drin yn unol â'r ddeddfwriaeth.

ATODIAD II

Rheoli'r Ddogfen

Polisi	TGCh
Teitl	Polisi Diogelu Data
Awdur	Swyddog Diogelu Data a Gwella
Cyfrifoldeb	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Digidol a ThGCh
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	30.03.2018 (cymeradwywyd gan y Cabinet 22.03.2018)
Dyddiad adolygu	Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd yn dilyn unrhyw newid sylweddol mewn deddfwriaeth (pa un bynnag sydd gyntaf).

Cymeradwyo'r ddogfen

Mae'r ddogfen yn gofyn am y gymeradwyaeth ganlynol:

1. Cabinet (polisi cychwynnol a newidiadau sylweddol)
2. Bwrdd Rheoli Gwybodaeth (diwygiadau)

Rheoli'r fersiwn

Rhif y fersiwn	Dyddiad cymeradwyo:	Yn ddilys o	Tan	Newidiadau wedi'u gwneud
1.0	22.03.2018 Y Cabinet	30.03.2018	13.12.2018	Y ddogfen derfynol
1.1	13.12.2018 Bwrdd IM	13.12.2018	12.12.2019	Diweddarwyd i adlewyrchu newidiadau deddfwriaeth Diogelu Data ar ôl 25/05/2018.
1.2	30.07.2019	30.07.2019		Newid Cyfeiriad Swyddfa Nodyn - diweddarwyd y dolenni 02.09.2021
2.0	01.11.2021	01.11.2021	21.02.2023	Adolygiad llawn i adlewyrchu newidiadau yn rheoliad diogelu data'r DU o ganlyniad i Brexit. Teitlau swyddi a rolau wedi'u diweddaru. Trefn y polisi wedi'i diweddaru. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Digidol a ThGCh
2.1	21.02.2023	21.02.2023		Adolygwyd 21.02.2023 yn unol â gwelliant i fersiwn Saesneg